LEADERS UNLOCKED



# Panel Ieuenctid SAYH

## Adroddiad Arolwg Cenedlaethol

Ebrill 2024

IOPC Independent Office for Police Conduct




# Cyflwyniad

*Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei gydgynhyrchu gan aelodau o Banel Ieuenctid Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH) ledled Cymru a Lloegr. Mae'r adroddiad yn taflu goleuni ar ymddiriedaeth pobl ifanc mewn plismona a chwynion heddlu yn 2023, ac yn rhannu argymhellion pobl ifanc ar gyfer gwella ymddiriedaeth.*

Mae Panel Ieuenctid SAYH yn cynnwys 35 o bobl ifanc 16-25 oed o gymunedau amrywiol ledled Cymru a Lloegr. Mae'r Panel yn ymroddedig i ganfod atebion i gynyddu ymddiriedaeth a hyder pobl ifanc mewn plismona a system gwynion yr heddlu.

Rhan allweddol o rôl y Panel yw ymgysylltu â phobl ifanc eraill ledled Cymru a Lloegr, fel ffordd o wrando ar eu barn a chodi ymwybyddiaeth o'r system gwynion. Mae'r Panel yn gwneud hyn drwy gyflwyno sesiynau ymgysylltu dan arweiniad ieuenctid ar lefel gymunedol, yn ogystal â chynnal arolwg blynyddol.

Yn 2023, cynhaliom ein **hail arolwg ieuenctid cenedlaethol** i archwilio barn pobl ifanc am blismona a chwynion heddlu ledled Cymru a Lloegr. Cyrhaeddodd yr arolwg **2,014 o bobl ifanc 13-25** oed ledled Cymru a Lloegr, gan roi sampl mwy i ni na'n harolwg cenedlaethol cyntaf yn 2022.[1]

Nod yr arolwg oedd:

- Archwilio **barn a phrofiadau pobl ifanc o blismona**
- Edrych ar **lefelau ymddiriedaeth** presennol ymhlith pobl ifanc ledled Cymru a Lloegr, ac a yw ymddiriedaeth wedi cynyddu neu leihau dros y flwyddyn ddiwethaf
- Archwilio barn pobl ifanc am gwynion yr heddlu a beth sy'n dylanwadu ar y safbwyntiau hyn
- Cynnwys pobl ifanc wrth **ddatblygu atebion** ar gyfer cwynion plismona ac am yr heddlu

Roedd y broses o ddatblygu'r arolwg yn cael ei **harwain gan bobl ifanc** ar bob cam. Gwnaeth aelodau'r Panel Ieuenctid gydygynllunio'r arolwg, dadansoddi data'r arolwg, a phenderfynu ar y canfyddiadau a'r argymhellion allweddol yn yr adroddiad hwn. Hwyluswyd y broses gan fenter gymdeithasol Leaders Unlocked. Mae Leaders Unlocked yn bodoli er mwyn galluogi pobl ifanc i gael llais cryfach ar y materion sy'n effeithio arnynt. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan www.leaders-unlocked.org

*[1] Arolwg cenedlaethol Panel Ieuenctid SAYH, Hydref 2022: https://www.policeconduct.gov.uk/publications/iopc-youth-panel-national-survey-october-2022*

# Gwybodaeth am yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ein hymatebion i'r arolwg a gasglwyd o **2,014 o bobl ifanc 13-25 oed** ledled Cymru a Lloegr. Mae'n cynnwys data meintiol ac ansoddol, sy'n ymgorffori ystadegau a dyfyniadau gan bobl ifanc. Mae rhan olaf yr adroddiad yn amlinellu'r argymhellion allweddol y mae'r Panel Ieuenctid wedi'u nodi ar gyfer cwynion plismona a'r heddlu.

Bwriad yr adroddiad hwn yw gweithredu fel cofnod dilys o'r hyn y mae pobl ifanc wedi'i ddweud wrthym drwy'r arolwg a'r atebion y maent wedi'u cynnig. Gobeithiwn hefyd y bydd yn rhoi cyfeiriad ac ysgogiad ar gyfer gweithredu ychwanegol ar ran SAYH, heddluoedd, ac asiantaethau cysylltiedig.

# Yr hyn a wnaethom

## Dylunio'r ymchwil:

Cynhaliom sesiwn ddylunio gydag aelodau Panel Ieuenctid SAYH i ddatblygu cwestiynau'r arolwg. O ganlyniad, rydym wedi datblygu **arolwg ar-lein gyda 27 o gwestiynau,** gan gynnwys cymysgedd o gwestiynau meintiol ac ansoddol. Cynlluniwyd yr arolwg i adeiladu ar arolwg cenedlaethol y llynedd, gan gadw llawer o'r un cwestiynau at ddibenion cymharu, yn ogystal ag ychwanegu nifer fach o gwestiynau newydd. Gweler Atodiad 1 am gopi o gwestiynau'r arolwg.

## Cynnal yr arolwg:

Lansiwyd yr arolwg ar 28 Medi ac roedd ar agor am 10 wythnos hyd at 12 Rhagfyr 2023. Dros y cyfnod hwn, cynhyrchodd yr arolwg **2,014** o ymatebion gan bobl ifanc rhwng 13 a 25 oed.

Hyrwyddwyd yr arolwg gan ddefnyddio amrywiaeth o sianeli lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cawsom gymorth a chefnogaeth amhrisiadwy gan amrediad eang o bartneriaid o fewn yn ogystal â thu allan i'r sector plismona, a helpodd i ddosbarthu'r arolwg trwy eu sianeli cyfryngau cymdeithasol a'u rhwydweithiau o sefydliadau ieuenctid a chymunedol lleol. Chwaraeodd aelodau'r Panel Ieuenctid eu hunain ran flaenllaw yn y lledaenu o fewn eu cymunedau eu hunain.

## Datblygu ein canfyddiadau a'n datrysiadau:

Ym mis Rhagfyr a mis Ionawr, cynhaliwyd cyfres o sesiynau dadansoddi gydag aelodau'r Panel i drafod canlyniadau'r arolwg a phenderfynu ar y canfyddiadau a'r atebion allweddol. Gwnaethom gydweithio i nodi canfyddiadau allweddol yr ymchwil ac i gytuno ar yr argymhellion pwysicaf i'w rhoi ymlaen yn yr adroddiad hwn.

# Pwy wnaethom ni eu cyrraedd

Cawsom **2,014** o ymatebion i arolwg gan bobl ifanc ledled Cymru a Lloegr.

Roedd y bobl ifanc a ymatebodd yn **13-25 oed** ac yn dod o amrediad amrywiol o gefndiroedd, cymunedau a phrofiadau.

Roedd y sampl hwn yn cynnwys amrediad eang o leisiau gan gynnwys:

Roedd **42%** o gymunedau Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig

Nododd **33.5%** eu bod yn LHDTC+

Dywedodd **23.9%** fod ganddynt anableddau neu anghenion ychwanegol

Roedd **8.3%** wedi cael profiad byw o'r system cyfiawnder troseddol

Roedd **7.7%** wedi cael profiad byw o'r system ofal

Gwnaethom gyflawni cwmpas daearyddol eang ar draws gwahanol ranbarthau Cymru a Lloegr. Daeth y niferoedd uchaf o ymatebion o Lundain (531), Manceinion Fwyaf (192), Glannau Merswy (152) a Gorllewin Canolbarth Lloegr (148). I gael dadansoddiad o niferoedd ymateb fesul heddlu gweler Atodiad 2.

Er mwyn sicrhau ein bod wedi cyrraedd sampl teg, fe wnaethom fabwysiadu ymagwedd ragweithiol i estyn allan at bobl ifanc ag amrediad amrywiol o gefndiroedd a phrofiadau. Hyrwyddwyd yr arolwg drwy bartneriaid yn y sectorau addysg, cymunedol ac ieuenctid ledled y wlad. Cawsom hefyd gefnogaeth werthfawr gan heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd i dargedu'r rhai sydd â mwy o brofiad o'r systemau plismona a chyfiawnder, megis defnyddwyr gwasanaeth Timau Troseddau Ieuenctid a'r rhai sy'n gwirfoddoli â'r heddlu.

# Diolchiadau


Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth yr holl bartneriaid sydd wedi ein helpu i hyrwyddo'r arolwg o fewn eu rhwydweithiau a'u rhanbarthau. Hoffem ddiolch i'r sefydliadau a'r grwpiau canlynol a roddodd eu cefnogaeth:

- Heddlu Swydd Derby
- Comisiwn Ieuenctid Hampshire ac Ynys Wyth
- Comisiynydd Heddlu, Tân a Throseddu Gogledd Swydd Efrog
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Swydd Nottingham
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Sir Gaer
- Heddlu Dyfnaint a Chernyw
- Yourpolice.uk

Mae diolch arbennig i holl aelodau Panel Ieuenctid SAYH sydd wedi bod yn allweddol wrth gydgynhyrchu'r arolwg a'r adroddiad hwn.



# ADRAN 1: BARN YR HEDDLU

**66%** Dywedodd eu bod yn ymddiried yn yr heddlu yn eu hardal, naill ai cryn dipyn neu lawer iawn

**69%** Dywedodd eu bod yn meddwl bod yr heddlu yn eu hardal yn trin pobl ifanc yn deg.

**37%** Dywedodd od eu hymddiriedaeth wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf, naill ai'n fawr neu ychydig. Dim ond 11% a ddywedodd fod eu hymddiriedaeth wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf.

## Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ymddiriedaeth yn yr heddlu wedi parhau i ddirywio ymhlith pobl ifanc.

**Dywedodd 37%** o bobl ifanc fod eu hymddiriedaeth yn yr heddlu wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf, tra mai dim ond **11%** a ddywedodd fod eu hymddiriedaeth wedi cynyddu dros y cyfnod hwn. Dywedodd **66%** o bobl ifanc eu bod yn ymddiried yn yr heddlu yn eu hardal, naill ai cryn dipyn neu lawer iawn. Mae hyn wedi gostwng **4%** o gymharu ag arolwg y llynedd. Yn gyffredinol, mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod y gostyngiad graddol mewn lefelau ymddiriedaeth yn duedd barhaus ymhlith pobl ifanc, ac nid oes digon yn cael ei wneud i'w wrthdroi.

## Mae digwyddiadau yn y cyfryngau wedi niweidio ymddiriedaeth. Mae storïau newyddion sy'n dod i'r amlwg wedi ychwanegu at y difrod a wneir gan storïau hŷn.

Mae'r arolwg yn dangos bod ymddiriedaeth wedi'i niweidio gan ddigwyddiadau proffil uchel yn y cyfryngau eto eleni. Mae llofruddiaeth Sarah Everard yn parhau i gael effaith fawr, a chafodd ei grybwyll yn aml yn yr ymatebion eleni. Mae storïau ac achosion eraill a amlygwyd gan bobl ifanc yn cynnwys: **Chris Kaba, Child Q , David Carrick adroddiad y Farwnes Casey**, a phlismona **protestiadau**. Mae nifer y storïau negyddol newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg wedi creu ymdeimlad cryf ymhlith pobl ifanc nad yw plismona yn newid ac yn diwygio fel y dylai.

> **Mae David Carrick yn pledio'n euog i 24 cyhuddiad o dreisio – yn dangos nad oes llawer wedi newid wrth gael gwared â'r "afalau drwg" o'r heddlu yn dilyn achosion mawr fel Wayne Couzens."**
>
> **"Sarah Everard! Sut ydw i fod i wybod os yw heddwas yn real neu'n ffug. Dw i'n golygu lladdodd a threisiodd [swyddog] heddlu go iawn hi byddai unrhyw un yn syrthio am hynny !!**

[2] https://www.policeconduct.gov.uk/news/iopc-calls-review-police-strip-search-powers-following-child-q-investigation

## Mae 'effaith crychdonnau' cyfryngau cymdeithasol yn siapio canfyddiadau pobl ifanc yn wirioneddol.

Mae'r defnydd eang o gyfryngau cymdeithasol fel ffordd o gyrchu newyddion yn cael 'effaith crychdonnau' eglur o ran lledaenu canfyddiadau negyddol am yr heddlu. Mae storïau negyddol yn cael eu rhannu ar raddfa dorfol ac yn lledu'n eang iawn yn gyflym. Mae cynnwys fideo yn elfen allweddol o hyn, yn cael ei rannu ar lwyfannau fel Tik Tok ac Youtube. I rai pobl ifanc, mae edrych ar y storïau hyn yn gwaethygu'r canfyddiadau negyddol presennol y maent wedi'u ffurfio yn seiliedig ar eu profiadau eu hunain o'r heddlu. I eraill, mae storïau o'r fath yn llenwi gwagle pan nad ydynt wedi cael unrhyw brofiad eu hunain gyda'r heddlu.

**Pobl ifanc yw'r genhedlaeth gyntaf â'r lefel hon o ryng-gysylltedd ar-lein ar draws y wlad ac ar draws rhwystrau dosbarth, ac rwy'n credu bod ein barn negyddol am yr heddlu yn deillio o'n gallu i rannu storïau ar anghyfiawnderau torfol, ffrydio byw, a chadw golwg ar gamymddwyn mae'r heddlu wedi gallu cuddio yn y gorffennol. Mae angen diwygio enfawr."**

**"Mae llawer o ddigwyddiadau, ar gyfryngau cymdeithasol a phrofiadau personol wedi gwneud i mi beidio â hoffi'r heddlu."**

## Mae pobl ifanc yn bryderus iawn am blismona protestiadau. Mae eisiau protestio ar lawer, ond maen nhw'n teimlo bod eu hawliau dan fygythiad.

Soniodd llawer o bobl ifanc am blismona protestiadau fel mater allweddol sy'n effeithio ar eu hymddiriedaeth yn yr heddlu ar hyn o bryd. Soniodd yr ymatebwyr am blismona **Gaza a phrotestiadau amgylcheddol**, yn ogystal â'r wylnos ar gyfer Sarah Everard, fel rhai llawdrwm a grymus. Siaradon nhw am y bygythiadau y maen nhw'n eu canfod tuag at ryddid i lefaru, megis yr hawl i gario baneri. Soniodd rhai am blismona yn gorfodi agenda ormesol gan y llywodraeth.

**Pam mae pobl ifanc yn cael eu harestio am gario baner, nid yw'n drosedd nid yw'n anghyfreithlon a dywedir wrthynt am ei thynnu i lawr."**

**"Rwyf hefyd yn ymwybodol iawn bod yr heddlu fel sefydliad yn mynd yn groes i'm hegwyddorion fel sefydliad sy'n defnyddio grym i, wel, orfodi rheol y llywodraeth a deddfau anghyfiawn yn ymwneud â gormesu protestiadau heddychlon."**

## Nid yw merched ifanc yn ymddiried yn yr heddlu i'w cadw'n ddiogel rhag ymosodiadau rhywiol ac aflonyddu, gan gynnwys gan swyddogion.

Mae achos Sarah Everard wedi taflu cysgod dros blismona ym meddyliau pobl ifanc, yn enwedig i ferched ifanc. Ychwanegwyd at hyn gan achosion eraill o swyddogion rheibus yn y cyfryngau, megis David Carrick, yn ogystal â phrofiadau personol merched ifanc. Mae menywod ifanc wedi dweud wrthym nad ydynt yn credu y byddant yn ddiogel nac yn cael eu hamddiffyn gan swyddogion gwrywaidd. Dywedodd llawer na fyddent yn ymddiried yn yr heddlu i ymateb yn effeithiol pe baent yn dioddef ymosodiad rhywiol neu aflonyddu. Dywedodd rhai na fyddent yn adrodd y math hwn o drosedd i'r heddlu o gwbl. Mae ein harolwg yn tanlinellu bod argyfwng ymddiriedaeth o ran Trais yn Erbyn Menywod a Merched.

**Fel menyw dydw i ddim yn meddwl y byddwn i'n ddiogel nac yn cael fy amddiffyn gan heddwas gwrywaidd oherwydd newyddion diweddar ac o'r gorffennol."**

**"Byddwn yn mynd at yr heddlu gyda rhai pethau, fel pe bawn yn ddioddefwr trosedd dreisgar neu drosedd gan ddieithryn, ond ni fyddwn yn ymddiried yn yr heddlu i ddelio â throseddau rhywiol yn briodol, gan fod y cynsail ar gyfer hyn yn wael."**

**"Rwy'n meddwl pe bawn i'n ddioddefwr trosedd nad oedd yn ymosodiad rhywiol yna byddwn yn ei adrodd i'r heddlu ond ni fyddai gennyf ffydd yn eu gallu na'u parodrwydd i fy helpu oherwydd rhagfarn a achosir gan fy rhyw, hil a chrefydd."**

**62%** **Dywedodd eu bod yn teimlo nad yw lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed gan eu heddlu lleol (naill ai dim llawer neu ddim o gwbl)**

**69%** **Dywedodd y byddent yn eithaf tebygol neu'n debygol iawn o fynd at yr heddlu pe byddent yn ddioddefwyr trosedd**

## Nid yw pobl ifanc o gymunedau wedi'u diffinio o ran hil a chymunedau LHDTC+ yn teimlo eu bod yn cael eu hamddiffyn.

Dywedodd llawer o bobl ifanc o'r cymunedau hyn wrthym nad oes ganddynt ffydd yn yr heddlu i'w hamddiffyn. Mae'r drwgdybiaeth hon wedi'i ffurfio o brofiadau personol â'r heddlu, yn ogystal â straeon yn y cyfryngau, gan arwain at ddrwgdybiaeth ddofn. Dywedodd pobl ifanc LHDTC+ wrthym nad oedd yr heddlu'n cymryd adroddiadau o droseddau casineb o ddifrif, a'u bod yn teimlo na fyddent yn cael eu deall na'u credu gan yr heddlu oherwydd eu hunaniaeth. Dywedodd pobl ifanc o gymunedau wedi'u diffinio o ran hil wrthym eu bod yn cael eu proffilio a'u targedu'n annheg gan yr heddlu, yn ogystal â bod yn destun gormod o rym gan swyddogion.

> **Fe wnes i adrodd trosedd casineb unwaith a doeddwn i ddim yn teimlo eu bod yn ei gymryd o ddifrif, mae'n debyg oherwydd fy mod i'n draws. Gwnaethon nhw ddim ymchwilio ac roedd y cyfan yn wastraff amser enfawr. Roedd yn straen mawr i mi."**
>
> **"Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy mhroffilio llawer mwy oherwydd rwy'n fachgen ifanc du er nad wyf yn gwneud unrhyw beth o'i le."**

## Mae llawer o bobl ifanc yn dal i deimlo nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed gan heddluoedd. Mae angen lledaenu arfer da.

Canfu ein harolwg fod **62%** o bobl ifanc yn teimlo nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed gan eu heddluoedd lleol. Mae hyn wedi gwella ychydig ar ganlyniadau'r llynedd o 65%, ond mae llawer o ffordd i fynd eto. Ceir enghreifftiau o arfer da mewn gwahanol rannau o Loegr a Chymru, megis Comisiynau Ieuenctid, paneli craffu, Grwpiau Cynghori Annibynnol Ieuenctid a Chomisiynwyr Ieuenctid etholedig. Fodd bynnag, nid yw'r enghreifftiau hyn yn ddigon eang eto. Mae gormod o bobl ifanc yn dal i deimlo nad yw'r heddlu'n dymuno clywed eu lleisiau na'u safbwyntiau. Yn waeth byth, maen nhw'n teimlo y bydd eu barn yn cael ei diystyru ar sail eu hoedran, yn ogystal â nodweddion gwarchodedig eraill megis rhyw ac anabledd.

> **Dw i ddim yn meddwl bod barn yn bwysig ac rwy'n credu y dylai ein llais gael ei glywed yn uwch oherwydd ni yw'r genhedlaeth nesaf."**
>
> **"Dyw lleisiau ifanc ddim yn cael eu clywed rhyw lawer ac os ydych chi'n dweud rhywbeth fyddai neb yn gwneud dim byd amdano."**

## Cymerodd llawer o bobl ifanc yr amser i rannu profiadau cadarnhaol â'r heddlu. Mae cymryd rhan mewn gwirfoddoli gyda'r heddlu yn meithrin ymddiriedaeth.

Dewisodd llawer o bobl ifanc rannu eu profiadau cadarnhaol eu hunain â'r heddlu trwy'r arolwg. Gwnaethant gymryd yr amser i ddisgrifio rhyngweithiadau a chyfarfyddiadau cadarnhaol, yn eu cymunedau ac yn eu hysgolion. Dywedodd pobl ifanc wrthym hefyd am fanteision cymryd rhan mewn cadetiaid heddlu a mathau eraill o wirfoddoli gan yr heddlu, sydd wedi eu helpu i gael persbectif arall ar blismona ac i feithrin ymddiriedaeth. Canfuom fod gan **6%** o ymatebwyr yr arolwg brofiadau o wirfoddoli â'r heddlu a bod gan **35%** brofiad o ymgysylltu â'r heddlu yn eu hysgolion.

> **Rwy'n meddwl oherwydd fy mod yn gwneud cadetiaid heddlu mae gen i lawer mwy o ymddiriedaeth yn yr heddlu a byddwn yn gwybod pa mor galed y mae'n rhaid iddynt weithio a deall popeth."**
>
> **"Pe na bawn i yn y Comisiwn Ieuenctid, ni fyddai gennyf unrhyw brofiad da gyda'r heddlu."**




# ADRAN 2: SAFBWYNTIAU O'R SYSTEM GWYNO

**Byddai'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn mynd at aelod o'r teulu** **67%** **neu ffrind** **42%** **am gymorth pe baent yn cael profiad gwael gyda'r heddlu.**

**27%** **Dywedodd o bobl ifanc eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn am yr heddlu.**

**20%** **Dywedodd eu bod wedi clywed am SAYH**

## Byddai'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn mynd at deulu neu ffrindiau pe byddent yn cael profiad gwael gyda'r heddlu.

Canfu'r arolwg y byddai'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn mynd at aelod o'r teulu **(67%)** neu ffrind **(42%)** pe byddent yn cael profiad gwael gyda'r heddlu. Dengys y canlyniadau mai llwybrau anffurfiol ar gyfer cymorth yw'r llwybrau y mae pobl ifanc yn ymddiried ynddynt fwyaf, o'u cymharu ag eraill fel yr heddlu, SAYH ac addysg. Mae hyn yn dangos bod angen gwneud ymdrechion i sicrhau bod teuluoedd, cyfoedion a chymunedau yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt am system gwynion yr heddlu.

> **"Pe byddai rhywbeth drwg yn digwydd byddwn i fwy na thebyg yn dweud wrth fy rhieni a bydden nhw'n fy helpu pe byddai angen."**

## Nid yw ysgolion a chyrff cyhoeddus yn cael eu hystyried yn eang fel lleoedd dibynadwy i gael cymorth â phrofiadau gwael gyda'r heddlu.

Canfuom fod pobl ifanc yn llawer llai tebygol o fynd at athrawon **(15%),** gweithwyr ieuenctid **(6%)**, yr heddlu **(13%)** neu SAYH **(11%)** pe byddent wedi cael profiad gwael gyda'r heddlu. Gallai hyn fod oherwydd nad yw pobl ifanc yn ymddiried yn y llwybrau hyn fel pobl a lleoedd i ymddiried ynddynt, a gallai hefyd fod oherwydd nad ydynt yn meddwl y byddai'r llwybrau hyn yn gallu eu helpu yn ymarferol. Mae angen am ragor o waith i archwilio a hyrwyddo llwybrau ehangach ar gyfer cymorth. Gallai llawer mwy gael ei wneud i wthio i sefydliadau addysg gael eu gweld fel ffynonellau cymorth, yn ogystal â SAYH.

## Mae pobl ifanc yn dod yn fwy ymwybodol y gallant gwyno.

Gwelsom fod pobl ifanc yn dod yn fwy ymwybodol y gallant gwyno. Dywedodd **27%** o bobl ifanc eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn am yr heddlu. Mae hyn yn welliant bach ar arolwg y llynedd, lle dywedodd **26%** y byddent yn gwybod ble i gael gwybodaeth am sut i wneud cwyn. Roedd **20%** o ymatebwyr wedi clywed am SAYH, a oedd yn gwestiwn newydd eleni ac felly ni ellir ei gymharu. Er bod ffigurau ymwybyddiaeth cyffredinol yn parhau i fod yn isel, mae'r ffaith eu bod yn cynyddu'n raddol yn arwydd da. Mae angen ailddyblu ymdrechion i godi ymwybyddiaeth yn y blynyddoedd i ddod.

**62%** **Dywedodd y byddent yn fodlon gwneud cwyn, pe byddent yn cael profiad gwael gyda'r heddlu (naill ai'n weddol barod neu'n barod iawn)**

**20%** **o bobl ifanc yn meddwl y byddai eu cwyn yn gwneud gwahaniaeth (naill ai ychydig neu lawer)**

## Mae pobl ifanc yn fwy parod i wneud cwyn am yr heddlu nag oedden nhw'r llynedd.

Canfu'r arolwg fod pobl ifanc nawr yn **fwy parod** i wneud cwyn am yr heddlu. Dywedodd **64%** o bobl ifanc y byddent yn fodlon gwneud cwyn pe byddent yn cael profiad gwael gyda'r heddlu. Mae hyn **10%** yn uwch na'r llynedd. Mae hyn yn dangos bod pobl ifanc yn gynyddol yn credu ym mhwysigrwydd gwneud cwynion, ac maent am ymddiried yn y system.

> **"Byddwn i'n gwneud cwyn oherwydd mae'n well o leiaf ceisio sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed nac eistedd yn dawel. Fy marn i yw: os oes gennych chi gŵyn, peidiwch ag eistedd yn dawel, gadewch i'ch llais gael ei glywed."**
>
> **"Byddwn yn gwneud cwyn, gan i mi ei fod yn ymddangos fel y dewis cywir, gan arwain, gobeithio, at gymryd rhai camau. Rwy'n ansicr faint o newid y bydd yn ei wneud, os o gwbl gan nad wyf yn clywed am fy heddlu lleol mewn gwirionedd."**

## Nid yw'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn meddwl y byddai eu cwynion yn gwneud gwahaniaeth o hyd.

Canfuom mai dim ond **20%** o bobl ifanc oedd yn teimlo y byddai eu cwyn yn gwneud gwahaniaeth. Mae diffyg ffydd y bydd cwynion yn arwain at y newidiadau a'r diwygiadau sydd eu hangen fwyaf. O ganlyniad i sylw yn y cyfryngau, mae pobl ifanc yn fwyfwy ymwybodol bod achosion o gamymddwyn yn cael eu hystyried, ond nid ydynt mor ymwybodol o'r canlyniadau.

> **"Dydw i ddim yn siŵr faint mae'r heddlu fel sefydliad yn ei ddysgu gan bobl sy'n codi pryderon neu gwynion gan fod digwyddiadau proffil uchel wedi bod lle nad yw'r heddlu wedi gwrando ar bryderon a godwyd yn flaenorol."**
>
> **"Rwy'n credu y byddai'r achosion gyda'r swyddog unigol yn cael eu datrys ond byddai'r newid systematig yn fach iawn.**

Roedd nifer o bobl ifanc hefyd yn rhannu **profiadau negyddol yn y gorffennol** o wneud cwyn gan yr heddlu nad oedd wedi arwain at unrhyw gamau sylweddol.

> **"Rwy'n credu nad yw cwynion yn gwneud cymaint o wahaniaeth gan y gwnaeth fy modryb gŵyn i'r heddlu pan gafodd fy nhad ddefnydd o taser yn ei erbyn am ddim rheswm a dim byd wedi digwydd."**
>
> **"Rwyf wedi cwyno o'r blaen am [heddwas] drwg yn fy ardal. mae'n dal i aflonyddu arnom. mae'n anobeithiol."**
>
> **"Cyflwynais gŵyn ynglŷn â natur ddifater y swyddogion, roedd yr ymateb a gefais yn nodi yn y bôn nad yw'n beth y gellir gwneud rhywbeth yn ei gylch."**

## Mae pobl ifanc yn teimlo na fydd yr heddlu yn gwrando arnynt, yn benodol oherwydd eu bod yn ifanc ac yn blant.

Rhwystr allweddol i wneud cwyn yw'r canfyddiad ymhlith pobl ifanc na fydd rhywun yn gwrando arnynt nac yn eu credu oherwydd eu hoedran. Dywedodd plant wrthym nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus i gwyno, ar sail nad ydynt yn cael eu credu na'u cymryd o ddifrif fel plentyn. Ymhelaethir ar hyn ar gyfer y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Mae hyn yn golygu bod camymddwyn yn erbyn plant yn fwy tebygol o fynd heb ei adrodd a heb ei herio, ac mae hyn yn rhywbeth y mae angen i'r system ymateb iddo.

**Dydw i ddim yn meddwl y byddwn i'n cael fy nghymryd o ddifrif nac yn cael fy nghredu, pan mae'n llais 17 oed yn erbyn gweithiwr proffesiynol."**

**"Nid yw eich plentyn stad cyngor nodweddiadol yn ennill dadl â swyddog heddlu."**

## Dywedodd rhai y byddent yn teimlo ofn cwyno, oherwydd ôl-effeithiau posibl. Mae diwylliant 'cario storïau' yn ymestyn i gwynion yr heddlu.

Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym y byddent yn ofni cwyno am gamymddwyn. Roedd y bobl ifanc hyn yn meddwl y gallai fod ôl-effeithiau pe byddent yn adrodd am gamymddwyn, ac y gallai wneud y sefyllfa'n waeth iddynt. Dywedodd rhai wrthym hefyd fod cwyno yn ei hanfod yn 'gario storïau' ac am y rheswm hwnnw na fyddent yn ei wneud. Mae'n bwysig bod ofnau a chamddehongliadau o'r fath yn cael sylw trwy gyfathrebu ac ymgyrchoedd wrth symud ymlaen.

**Mae'n teimlo fel pe baech chi'n cwyno ac nad yw'n ddienw, bydden nhw'n llai parod i'ch helpu chi yn y dyfodol."**

**"Sut ydych chi'n cwyno am wasanaeth sydd i fod i'ch amddiffyn chi. Os byddaf yn cwyno, a fyddaf wedyn yn dod yn darged iddyn nhw?"**

**"Y stigma o'i gwmpas a'r gred bod siarad â'r heddlu neu wneud cwyn yn 'hunanladdiad cymdeithasol'"**

## Soniodd llawer o bobl ifanc am y cymorth y byddai ei angen arnynt i gwyno.

Clywsom gan bobl ifanc a oedd yn teimlo y byddai angen cymorth arnynt i wneud cwyn. Mae hyn yn dangos bod angen cymorth ac anogaeth, yn hytrach na gwybodaeth yn unig.






# ADRAN 3: ARGYMHELLION ALLWEDDOL AR GYFER HEDDLUOEDD

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r argymhellion allweddol y mae Panel Ieuenctid SAYH wedi'u nodi i gynyddu ymddiriedaeth pobl ifanc mewn plismona. Mae'r argymhellion hyn i heddluoedd, y llywodraeth a chyrff plismona eu hystyried. Maent yn seiliedig ar y syniadau a gasglwyd gan bobl ifanc drwy'r arolwg, ac wedi'u llywio gan y gwaith ymgysylltu ehangach sydd wedi'i wneud gan y Panel Ieuenctid.

## 1. Dylai pob heddlu gynnwys pobl ifanc yn eu penderfyniadau trwy gydgynhyrchu.

Mae angen lledaenu arfer da ym maes ymgysylltu â phobl ifanc. Dylai pob heddlu ddefnyddio dull cydgynhyrchu i gynnwys pobl ifanc yn eu penderfyniadau. Mae hyn yn golygu y dylai pobl ifanc gael eu cynnwys ym mhob cam o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae rhai o'r mecanweithiau ar gyfer cydgynhyrchu yn cynnwys Comisiynau Ieuenctid, Paneli Craffu, IAGau Ieuenctid a Chomisiynwyr Ieuenctid etholedig. Dylai fod gan bob ardal o leiaf rai, os nad pob un, o'r mentrau hyn ar waith.

## 2. Dylai heddluoedd ymgysylltu'n fwy rhagweithiol â'r gymuned, gan gynnwys â phobl ifanc.

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad yn 2022, mae gwerth gwirioneddol i ryngweithio cadarnhaol 'bob dydd' â'r heddlu. Rydym yn parhau i alw ar yr heddlu i ymgysylltu â phobl ifanc mewn cymunedau trwy ddigwyddiadau cyhoeddus a gweithgareddau ymgysylltu. Mae angen i fentrau o'r fath fod yn ehangach, ac mae angen iddynt gynnwys pobl ifanc yn ogystal ag adrannau hŷn y gymuned. Dylai heddluoedd weithio gyda phobl ifanc yn eu hardal i ddylunio a chyflwyno digwyddiadau ymgysylltu ar lefel gymunedol er mwyn meithrin gwell perthnasoedd â swyddogion cymdogaeth a dod i wybod pwy ydynt y tu hwnt i'r iwnifform. Mae syniadau pobl ifanc ar gyfer mentrau yn cynnwys 'coffi gyda'r plismyn'.

## 3. Dylai swyddogion ysgolion fod yn hygyrch ym mhob ysgol fel ffordd o feithrin perthnasoedd cadarnhaol â'r heddlu.

Rydym wedi gweld dros ddwy flynedd ddiwethaf ein harolwg bod llawer o bobl ifanc yn elwa o gael swyddog enwebedig yn eu hysgol. Dylai fod gan bob ysgol swyddogion heddlu enwebedig a dylai pobl ifanc wybod pwy yw eu swyddog penodedig a gallu meithrin perthynas ystyrlon â nhw. Dylai rôl swyddogion ysgolion ganolbwyntio'n llym ar ymgysylltu ac addysg gadarnhaol, ac ni ddylent byth gymryd rôl gosbol. Fel y nodwyd gennym yn adroddiad y llynedd, dylai ymgysylltiad yr heddlu ag ysgolion fod yn addysgol, heb fod yn gosbol ac wedi'i lywio'n llawn gan yr hyn sydd ei eisiau ar bobl ifanc eu hunain o'r ymgysylltu.

## 4. Dylai heddluoedd hyrwyddo storïau newyddion mwy cadarnhaol a gwella ymgysylltiad ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol

Mae angen lledaenu newyddion cadarnhaol am blismona a diwygio'r heddlu, er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol cyffredinol. Nid yw hyn yn golygu brwsio straeon negyddol o dan y carped, ond yn hytrach mae'n cyflwyno darlun dilys o'r ymdrechion cadarnhaol a wneir i wella atebolrwydd ac ymddiriedaeth. Yn fwy penodol, dylai pob heddlu fod yn rhannu'r hyn y maent yn ei wneud i feithrin ymddiriedaeth, canlyniadau cwynion lleol a sut maen nhw'n dysgu ac yn gwella. Dylai cyfathrebiadau roi sylw arbennig i ymdrechion i fynd i'r afael â gwahaniaethu a chasineb at fenywod, gan fod y rhain yn bryderon allweddol i'r genhedlaeth iau.

## 5. Dylai heddluoedd gymryd mwy o berchnogaeth gyhoeddus o gamgymeriadau a dangos sut y maen nhw'n gwella

Mae'n hanfodol bod heddluoedd ac arweinwyr heddlu yn cymryd mwy o berchnogaeth gyhoeddus ar gamgymeriadau a chamymddwyn, ac yn rhoi gwybod i'r cyhoedd beth sy'n cael ei wneud i ddiwygio plismona. Ni fydd pobl ifanc yn gallu ymddiried mewn plismona heblaw eu bod yn teimlo bod methiannau'n cael eu cydnabod ac yn cael sylw gyda diwygiadau digon pellgyrhaeddol. Mae diwylliant o aros yn dawel yn llygad y cyhoedd yn niweidio ymddiriedaeth ac mae angen newid hyn.

## 6. Dylai'r defnydd o gamerâu corff fod yn orfodol ym mholisi'r heddlu.

Dylai'r defnydd o gamerâu corff fod yn orfodol ym mholisi'r heddlu, fel ffordd allweddol o wella ymddiriedaeth ac atebolrwydd. Mae'r defnydd anghyson o gamerâu corff ar hyn o bryd yn niweidiol i ymddiriedaeth a hyder. Mae angen buddsoddi mwy fel bod adnoddau digonol ar gael i bob swyddog ddefnyddio camerâu corff. Credwn y byddai hyn yn ddefnyddiol i swyddogion a phobl ifanc, yn enwedig o ystyried pa mor gyffredin mae ffilmiau dinasyddion o gyfarfyddiadau â'r heddlu nad yw bob amser yn caniatáu ar gyfer barn gytbwys.

## 7. Dylid gwneud rhagor o waith ar brosesau llogi ar gyfer swyddogion newydd â ffocws ar fynd i'r afael â thuedd, gwahaniaethu a thrais.

Mae eisiau bod yn llawer mwy hyderus ar bobl ifanc y bydd swyddogion newydd sy'n ymuno â gwasanaeth yr heddlu yn dod â'r gwerthoedd, y meddylfryd a'r ymddygiad cywir i'r rôl. Gyda hyn mewn golwg, mae eisiau gwybod ar bobl ifanc bod y prosesau fetio ar gyfer swyddogion newydd yn briodol llym ac yn gyson ar draws heddluoedd. Mae eisiau ar bobl ifanc i fetio gael ei ganolbwyntio'n eglur ar nodi a chael gwared â rhagfarnau negyddol, casineb at fenywod, tueddiadau gwahaniaethol a threisgar. Dylai cyrff plismona gynnwys pobl ifanc wrth recriwtio swyddogion newydd, drwy roi cyfle iddynt graffu ar y prosesau fetio ac eistedd ar baneli recriwtio.



## 8. Dylai pob swyddog dderbyn hyfforddiant mewn dulliau ystyriol o drawma a sgiliau dad-ddwysáu.

Yn ein hadroddiad diwethaf fe wnaethom amlygu'r pwysigrwydd bod yr heddlu yn deall ac yn ymateb yn fwy effeithiol i drawma – gan gynnwys y trawma y gall yr heddlu ei achosi. Eleni rydym yn galw ar bob swyddog heddlu i dderbyn hyfforddiant trawma gorfodol. Byddai hyn yn helpu swyddogion i gyfathrebu ac ymgysylltu â phobl ifanc yn effeithiol, a byddai'n gwella rhyngweithio fel stopio a chwilio. Yn benodol, dylai swyddogion ddysgu am ddad-ddwysáu trwy gyfathrebu ac ymgysylltu.

## 9. Dylid cynnwys yr hawl i gwyno yn natganiad rhybudd yr heddlu.

Rydym wedi galw o'r blaen am i'r hawl i gwyno gael ei ymgorffori mewn arfer gorfodol. Rydym yn parhau i alw am y newid hwn. Rydym yn argymell y dylid cynnwys yr hawl i gwyno yn y datganiad a ddefnyddir gan swyddogion yr heddlu wrth roi rhybudd, arestio, stopio a chwilio, a/neu gadw rhywun yn nalfa'r heddlu.




# ADRAN 4: ARGYMHELLION ALLWEDDOL AR GYFER SYSTEM GWYNION YR HEDDLU

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r argymhellion allweddol y mae Panel Ieuenctid SAYH wedi'u nodi i gynyddu hyder pobl ifanc yng nghwynion yr heddlu. Mae'r argymhellion hyn i SAYH, adrannau Safonau Proffesiynol, a'r llywodraeth eu hystyried. Maent yn seiliedig ar y syniadau a gasglwyd gan bobl ifanc drwy'r arolwg, ac wedi'u llywio gan y gwaith ymgysylltu ehangach sydd wedi'i wneud gan y Panel Ieuenctid.

## 1. Dylid cyfeirio pob achos sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed at SAYH.

Dylid ehangu cylch gorchwyl SAYH i ymchwilio i bob achos o gamymddwyn sy'n ymwneud â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed. O dan y system gwynion bresennol, mae'r troseddau mwyaf difrifol yn cael eu cyfeirio at SAYH, a chredwn y dylid ehangu'r cwmpas hwn i bob achos sy'n ymwneud â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gellid cyflwyno'r newid hwn drwy ddiwygio'r hyn sy'n cael ei ddosbarthu fel 'difrifol a sensitif'. Gellid ei gychwyn yn y lle cyntaf trwy atgyfeiriadau gwirfoddol.

## 2. Dylid sefydlu gwasanaeth eiriolaeth i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i bobl sy'n gwneud cwynion.

Yn ein hadroddiad yn 2022 fe wnaethom ddatgan y dylai sefydliadau yr ymddiriedir ynddynt allu helpu pobl ifanc i gwyno. Rydym yn argymell y dylid sefydlu gwasanaeth eiriolaeth i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i unigolion yn ystod ac ar ôl y broses gwyno. Gallai'r gwasanaeth helpu pobl drwy'r broses o gwyno. Gallai hefyd roi help i gael cymorth iechyd meddwl, cyfeirio at elusennau cymorth, a dosbarthu gwybodaeth gorfforol.

Gellid hyfforddi oedolion o blant a phobl ifanc y gellir ymddiried ynddynt, megis athrawon a gweithwyr ieuenctid, i gynorthwyo pobl sy'n gwneud cwynion. Rydym yn ymwybodol bod SAYH wedi dechrau cyflwyno sesiynau i weithwyr proffesiynol rheng flaen ar system gwynion yr heddlu ac yn eu cynghori ar y ffordd orau i eirioli ar ran eu defnyddwyr gwasanaeth pan wneir cwyn a byddem yn gobeithio gweld hyn yn cael ei ymestyn yn y dyfodol.

## 3. Dylai ymchwiliadau gael eu harwain yn fwy gan ddioddefwyr. Dylid ystyried datganiad effaith dioddefwr fel rhan allweddol o bob ymchwiliad.

Dylai'r broses gwyno flaenoriaethu effaith camymddwyn ar y dioddefwr, yn hytrach na difrifoldeb y camymddwyn. Dylai SAYH a'r adrannau Safonau Proffesiynol gasglu ac adolygu datganiadau effaith ar ddioddefwyr wrth ymchwilio i achosion a gwneud argymhellion. Dylai'r broses hon ystyried yr effeithiau hirdymor ar ddioddefwyr, yn ogystal â'r effeithiau tymor byrrach.

## 4. Dylid symleiddio proses gwyno'r heddlu i'w gwneud yn fwy hygyrch i blant a phobl ifanc.

Rydym wedi galw o'r blaen am system gwyno sy'n cydnabod anghenion penodol pobl ifanc. Mae angen symleiddio'r broses gwyno a'i gwneud yn fwy hygyrch i blant a phobl ifanc. Dylai'r broses o wneud cwyn fod yn gyflym ac yn hawdd i bobl ifanc, gyda ffurflen hygyrch y gellir ei chyrchu trwy amrywiaeth o gyfryngau sy'n gyfeillgar i bobl ifanc. Dylai fod gwahanol ffyrdd o gwyno a fyddai'n bodloni amrediad o anghenion e.e., trwy neges destun, cyfryngau cymdeithasol, ap ffôn clyfar, a theleffon.

## 5. Dylid cael system gwynion grŵp ar gyfer sefydliadau y gellir ymddiried ynddynt ar lefel gymunedol.

Dylai fod system gwynion grŵp ar gyfer sefydliadau y gellir ymddiried ynddynt ar lefel gymunedol, megis ysgolion a sefydliadau ieuenctid. Byddai'r system hon yn gweithredu'n debyg i'r system 'uwch-gwynion' bresennol, ond ar lefel gymunedol, gyda sefydliadau'n gallu cyflwyno cwynion ar ran grŵp o blant neu bobl ifanc. Byddai hyn yn galluogi pobl ifanc unigol i aros yn ddienw gan na fyddai'n rhaid iddynt gael eu henwi fel achwynydd penodedig, a fyddai'n gwneud iddynt deimlo'n fwy cyfforddus i gwyno. Mae hefyd angen mannau hygyrch, dibynadwy i gwyno ar lefel gymunedol.

## 6. Mwy o gyhoeddi storïau cadarnhaol gan gynnwys canlyniadau gweladwy a diwygio systematig.

Yn ein hadroddiadau blaenorol rydym wedi galw am ganlyniadau mwy gweladwy ar gyfer camymddwyn, fel ffordd o feithrin hyder y gall cwynion arwain at ganlyniadau ystyrlon. Mae hwn yn parhau i fod yn newid rydym yn galw amdano. Dylid cyhoeddi mwy o straeon cadarnhaol a chanlyniadau dysgu o ganlyniad i'ch cwyn. Mae angen i SAYH a'r Safonau Proffesiynol ganolbwyntio ar hyrwyddo straeon â chanlyniadau, gan ddefnyddio fformat 'dywedoch chi, gwnaethom ni' fel ffordd hawdd ei ddefnyddio o adrodd y stori.



## 7. Gwell ymgysylltu o fewn pob sector addysg ar y system gwynion a SAYH

Mae angen i SAYH ymgysylltu'n ehangach â phob sector addysg, o ysgolion cynradd hyd at y brifysgol. Dylai SAYH greu pecyn adnoddau i'w anfon at ysgolion, colegau, ac undebau myfyrwyr, gyda gwybodaeth am y system gwynion i'w rhannu trwy bosteri, tiwtorialau, taflenni ac ati. Byddai'r Panel Ieuenctid am fod yn rhan o greu'r pecyn adnoddau hwn, er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion pobl ifanc mewn gwahanol gymunedau.

# CASGLIAD

Rydym yn aruthrol o ddiolchgar i'r holl bobl ifanc ledled Cymru a Lloegr a roddodd o'u hamser i rannu eu profiadau a'u barn am blismona a chwynion heddlu. Estynnwn ddiolch hefyd i arweinwyr ifanc ymroddedig Panel Ieuenctid SAYH sydd wedi gyrru'r prosiect yn ei flaen, ac i'r holl bartneriaid a gefnogodd ac a hyrwyddodd y darn hwn o waith.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn gweithio i sicrhau bod y canfyddiadau a'r argymhellion hyn yn cael eu gweithredu mor eang â phosibl. Byddwn yn rhannu canfyddiadau lleol yn yr ardaloedd lle rydym wedi cynhyrchu nifer sylweddol o ymatebion. Ar lefel genedlaethol, byddwn yn gweithio gyda SAYH, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a chyrff eraill i hyrwyddo'r argymhellion ar draws y sector plismona. Rydym yn llawn cyffro i barhau i weithio gydag arweinwyr systemau, llunwyr polisi a gweithwyr proffesiynol eraill i weithredu ar yr hyn y mae pobl ifanc wedi dweud wrthym.



# ATODIAD 1: EDRYCH AR YMATEBION FESUL RHANBARTH

| Heddlu | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Avon and Somerset | 13 |
| Bedfordshire | 33 |
| Cambridgeshire | 5 |
| Cheshire | 74 |
| Cleveland | 59 |
| Cumbria | 2 |
| Derbyshire | 27 |
| Devon and Cornwall | 69 |
| Dorset | 20 |
| Durham | 11 |
| Dyfed-Powys | 11 |
| Essex | 81 |
| Gloucestershire | 7 |
| Greater Manchester | 192 |
| Gwent | 4 |
| Hampshire | 10 |
| Hertfordshire | 22 |
| Humberside | 6 |
| Kent | 4 |
| Lancashire | 17 |
| Leicestershire | 16 |
| Lincolnshire | 4 |
| Merseyside | 153 |
| London | 531 |
| Norfolk | 16 |
| North Wales | 44 |
| North Yorkshire | 44 |
| Northamptonshire | 6 |
| Northumbria | 76 |
| Nottinghamshire | 91 |
| South Wales | 30 |
| South Yorkshire | 16 |
| Staffordshire | 7 |
| Suffolk | 4 |
| Surrey | 16 |
| Sussex | 14 |
| Thames Valley | 8 |
| Warwickshire | 14 |
| West Mercia | 53 |
| West Midlands | 148 |
| West Yorkshire | 26 |
| Wiltshire | 30 |



# ATODIAD 2: CWESTIYNAU'R AROLWG

Mae'r arolwg hwn yn rhan o brosiect a arweinir gan bobl ifanc i ddylanwadu ar blismona ledled Cymru a Lloegr. Mae wedi cael ei gynllunio gan bobl ifanc o Banel Ieuenctid ySwyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu (SAYH).

Mae eich barn fel unigolyn ifanc yn wirioneddol bwysig i ni a bydd yn cael ei ddefnyddio i greu argymhellion ar gyfer newid. Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau'r arolwg yn ddiweddarach yn 2023.

Mae'r arolwg yn gwbl ddienw ac ni ofynnir i chi am eich enw, manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth a fydd yn datgelu pwy ydych. Mae'n cael ei reoli gan Leaders Unlocked

Bydd yr arolwg yn cymryd tua 6-8 munud i'w gwblhau, yn dibynnu ar faint sydd gennych i'w ddweud.

# Adran 1: Amdanoch chi

1. Beth yw eich oedran? (Dewislen o 13 – 25 oed) *gofynnol
2. Ym mha ranbarth plismona ydych chi'n byw? (Dewislen o ranbarthau plismona Lloegr a Chymru) *gofynnol
3. Beth yw rhan gyntaf eich cod post? *dewisol
4. Beth yw eich galwedigaeth bresennol? (Dewiswch yr opsiwn sy'n cynrychioli eich prif alwedigaeth orau))

- ☐ Ysgol
- ☐ Addysg arall
- ☐ Coleg/6ed dosbarth
- ☐ Prifysgol
- ☐ Gwaith llawn amser
- ☐ Gwaith rhan-amser
- ☐ Gwirfoddoli
- ☐ Di-waith ond yn chwilio am waith
- ☐ Cyfrifoldebau gofalu/rhieni
- ☐ Hunangyflogedig
- ☐ Ddim mewn gwaith/addysg oherwydd salwch hirdymor neu anabledd
- ☐ Arall (manylwch)

# Adran 2: Eich barn am yr heddlu

5. Faint ydych chi'n ymddiried yn yr heddlu yn eich ardal?

- ☐ Llawer iawn
- ☐ Ychydig
- ☐ Dim o gwbl
- ☐ Dim llawer

6. I ba raddau ydych chi'n meddwl bod yr heddlu yn eich ardal yn trin pobl ifanc yn deg?

- ☐ Llawer iawn
- ☐ Ychydig
- ☐ Dim o gwbl
- ☐ Dim llawer

7. Pa mor debygol fyddech chi o fynd at yr heddlu pe baech yn dioddef trosedd?

- ☐ Tebygol iawn
- ☐ Eithaf tebygol
- ☐ Ddim yn debygol iawn
- ☐ Ddim yn debygol o gwbl

8. I ba raddau ydych chi'n teimlo bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed gan eich heddlu lleol?

- ☐ Llawer iawn
- ☐ Ychydig
- ☐ Dim o gwbl
- ☐ Dim llawer

9. Dros y flwyddyn ddiwethaf, a fyddech chi'n dweud bod eich ymddiriedaeth yn yr heddlu wedi cynyddu, lleihau, neu aros tua'r un peth?

- ☐ Cynyddu llawer
- ☐ Cynyddu ychydig
- ☐ Wedi aros tua'r un peth
- ☐ Lleihau ychydig
- ☐ Lleihau llawer

10. Defnyddiwch y blwch hwn i ddweud ychydig mwy wrthym am eich canfyddiadau o'r heddlu.Awgrym: hoffem wybod y rhesymau pam rydych yn teimlo fel rydych chi, a beth sy'n dylanwadu ar eich canfyddiadau o'r heddlu. (Maes agored)

11. Oes unrhyw ddigwyddiadau dros y 12 mis diwethaf wedi dylanwadu ar eich canfyddiadau o'r heddlu?(Maes agored)

# Adran 3: Eich barn am gwynion am yr heddlu

12. Pe byddech chi'n cael profiad gwael â'r heddlu, at bwy fyddech chi'n mynd i gael cymorth? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Ffrind
- ☐ Aelod o'r teulu
- ☐ Athro
- ☐ Gweithiwr ieuenctid
- ☐ Y Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)
- ☐ Heddlu
- ☐ Gweithiwr Cymdeithasol
- ☐ Ni fyddwn yn mynd at unrhyw un
- ☐ Ddim yn siŵr
- ☐ Arall (nodwch)

13. Ydych chi'n gwybod sut i wneud cwyn am yr heddlu?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn siŵr

14. Ydych chi wedi clywed am SAYH (Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu)?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn siŵr

15. Pe byddech wedi cael profiad gwael â'r heddlu, pa mor barod fyddech chi i wneud cwyn?

- ☐ Parod iawn
- ☐ Eithaf parod
- ☐ Ddim yn barod iawn
- ☐ Ddim yn barod o gwbl

16. Faint o wahaniaeth ydych chi'n meddwl y byddai eich cwyn yn ei gwneud, os o gwbl?

- ☐ Llawer
- ☐ Ychydig
- ☐ Dim llawer
- ☐ Dim o gwbl

17. Defnyddiwch y blwch hwn i ddweud ychydig mwy wrthym am eich barn ar gwynion yr heddlu. Awgrym: hoffem wybod ychydig mwy am y rheswm pam y byddech/na fyddech yn gwneud cwyn, a beth sy'n dylanwadu ar eich barn. (Maes agored)

# Adran 4: Eich atebion

18. Pa rinweddau ydych chi'n meddwl sydd eu hangen mewn gwasanaeth heddlu da? (Maes agored)

19. Beth allai'r heddlu ei wneud i ennill (neu i gynnal) eich ymddiriedolaeth? (Maes agored)

20. Beth yw un o'r prif faterion y credwch y dylai'r heddlu fod yn canolbwyntio arno eleni? (Maes agored)

21. Beth ellid ei wneud i helpu pobl ifanc i wneud cwynion am yr heddlu?(Maes agored)

# Adran 5: Eich profiadau

22. Pa brofiadau ydych chi erioed wedi eu cael â'r heddlu? ( Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Adrodd am drosedd
- ☐ Rhoi datganiad
- ☐ Ymgysylltu â'r heddlu yn yr ysgol
- ☐ Gwirfoddoli â'r heddlu
- ☐ Arestiad
- ☐ Stopio a chwilio
- ☐ Stopio ac adrodd (cael eich stopio a'ch chwestiynu)
- ☐ Dim profiadau
- ☐ Arall

23. Faint o brofiadau ydych chi wedi cael â'r heddlu yn ystod y 12 mis diwethaf?

- ☐ Dim
- ☐ 1
- ☐ 2-3
- ☐ 4-6
- ☐ 6-10
- ☐ Mwy na 10

24. Sut fyddech chi'n disgrifio eich ymwneud â'r heddlu yn ystod y 12 mis diwethaf, os ydych chi wedi cael unrhyw rai? (Maes agored))



# Adran 6: Amrywiaeth

25. Hoffem ddarganfod sut y gallai profiadau fod yn wahanol i wahanol grwpiau. (Ticiwch unrhyw rai rydych yn teimlo sy'n gymwys i chi)

- ☐ Anableddau neu anghenion ychwanegol
- ☐ Yn derbyn Prydau Ysgol am Ddim ar hyn o bryd neu o'r blaen
- ☐ LHDTC+
- ☐ Profiad personol o faterion iechyd meddwl
- ☐ Profiad o ddigartrefedd neu heb gyfeiriad sefydlog
- ☐ Profiad o'r system ofal
- ☐ Bod yn ofalwr ifanc
- ☐ Profiad o'r system cyfiawnder troseddol
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

26. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch ethnigrwydd orau?

27. Beth yw eich rhyw?

- ☐ Gwrywaidd
- ☐ Benywaidd
- ☐ Hylifol o ran rhywedd
- ☐ Anneuaidd
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud
- ☐ Arall (hunanddisgrifiwch os gwelwch yn dda)

## Gwybodaeth Ychwanegol

I gael gwybodaeth am sut i wneud cwyn, ewch i wefan https://www.policeconduct.gov.uk/research-and-learning/our-youth-panel/police-complaints-quick-guide-young-people